

1872



PRIFYSGOL

ABERYSTWYTH  
UNIVERSITY

Ydy fy swydd  

---

yn dy siwtio?



## Ydy fy swydd yn dy siwtio?

A wyt ti'n gwybod pa swydd hoffet ti ei gwneud yn y dyfodol? Mae'r Gymraeg yn sgil hynod o werthfawr yn y byd gwaith erbyn hyn, ac mae gradd yn y Gymraeg yn agor drysau i amrywiaeth eang o yrfaedd.

Mae Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Aberystwyth yn ymfalchïo yn llwyddiant ein graddedigion.

**Mae 100% o'n graddedigion**

mewn swydd neu addysg bellach 6 mis ar ôl graddio.

Dyma ddetholiad o'r swyddi y maent yn eu gwneud i'th ysbrydoli.

Dere i astudio gyda ni a gall y  
Gymraeg gyfoethogi dy yrfa!

# Newyddiadurwr Darlledu

Enw: **Carwyn Eckley**

Cartref: **Penygroes, Dyffryn Nantlle**

Teitl Swydd: **Newyddiadurwr Darlledu**

Sefydliad: **Newyddion 9, BBC Cymru**



## Disgrifiad:

Yn ystod fy amser yn y coleg, roeddwn i'n gwybod y byddai fy swydd ddelfrydol yn ymwneud â'r Gymraeg bob dydd. Fe ddeallais i'n weddol fuan ar ôl cychwyn y cwrs y byddai'r sgiliau y byddwn i'n eu datblygu dros y tair blynedd yn fy ngalluogi i i wneud hynny. Wedi imi astudio Cymraeg Proffesiynol yn Aberystwyth, fe ddilynais i'r cwrs newyddiaduraeth darlledu ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rwyf bellach yn gweithio fel newyddiadurwr gyda thîm Newyddion 9 yn BBC Cymru.

Rwy'n mwynhau'r gwaith yn fawr iawn. Roedd y swydd ddisgrifiad yn dweud bod gafaal gywir ar y Gymraeg yn hanfodol, ac o ran hynny dw i'n werthfawrogol iawn i Adran y Gymraeg yn Aberystwyth am y cyfle i loywi fy ysgrifennu ('dydi'r dosbarthiadau Gloywi laith ddim mor ddrwg â hynny!). Mae natur y maes yn golygu weithiau bod rhaid ysgrifennu stori sy'n addas i'w

darlledu mewn amser cyfyng iawn. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol bwysig fy mod i'n ysgrifennu'n gywir o ran y ffeithiau a'r gramadeg, ond hefyd mae'n bwysig fy mod i'n gallu ysgrifennu mewn dull llafar fel bod y geiriau'n hawdd i'r cyflwynydd eu darllen. Mae sgiliau ymwneud â phobl yn bwysig iawn hefyd wrth godi'r ffôn a cheisio trefnu cyfweiliadau ac yn y blaen- roedd y profiad o drefnu nosweithiau llenyddol yn y brifysgol yn gymorth mawr o ran magu'r hyder i wneud y math yma o beth. Dw i wedi gweithio ar ystod eang o straeon erbyn hyn, a dwi'n edrych ymlaen at weld beth ddaw yn y misoedd nesaf.

## Diwrnod Arferol:

Mae'n ddrwg gen i ddefnyddio ystrydeb, ond 'does' na ddim dau ddydd yr un fath yn yr ystafell newyddion! Rydan ni'n gweithio pedair shift bob wythnos, sy'n cynnwys shift ohebu, shift ddigidol a shift drefnu. Mae'r shiftiau'n amrywio o 9-5 i 9:30-9:30, ond mae'r ystafell newyddion yn brysur iawn, a buan mae'r dydd yn mynd heibio. Rwy'n mwynhau'r amrywiaeth yn fawr, ac yn ôl gofynion y rhaglen ar y diwrnod, fe allai'r cynhyrhydd fy anfon i i rywle i gasglu cyfweiliad neu saethiadau ar gyfer pecyn. Rydan ni'n cael dau gyfarfod i drafod y rhaglen, y naill yn y bore a'r llall yn y prynhawn lle'r ydyn ni'n trafod pwy sydd â gofal dros bpa stori, a sut y dylid ymdrin â straeon gwahanol y dydd. Mae'r tîm yn gyfeillgar iawn ac wastad yn barod i helpu os oes gen i broblem neu gwestiwn ynghylch y gwaith.

## Fy hoff beth:

Gwybod beth sy'n digwydd yng Nghymru a'r tu hwnt.

## Cymwysterau:

**BA Cymraeg Proffesiynol**  
**MA Newyddiaduraeth Darlledu**

Roedd dilyn y cwrs Cymraeg Proffesiynol yn hwb mawr imi wrth ddechrau fy ngyrfa. Mae'r maes newyddiadurrol yn un ymarferol iawn, ac oherwydd bod natur felly i'r cwrs hefyd, 'doedd pontio'r ddau fyd ddim yn gymaint o gam ag oeddwn i'n ei ofni. Fe hoffwn i dynnu sylw'n benodol at y cyfle i dreulio cyfnod o amser ar leoliad hefyd. Treuliais i gyfnod gydag S4C yn ogystal â chwmmi cyfryngau Rondo yng Nghaernarfon, a dwi'n credu bod gweld f'ymroddiad i gyrraedd y maes wedi fy nghynorthwyo'n enfawr i gael lle ar fy nghwrs ôl-radd. Daeth yr un peth yn wir o ran fy nghyflogwyr maes o law, felly dw i'n diolch i'r Adran am y cyfle i wneud hynny.

## Sgiliau Allweddol:

laith gywir, a'r gallu i weithio dan bwysau ac o fewn terfynau amser.

# Swyddog Maes

Enw: Owen Howell

Cartref: Abercwmboi, Cwm Cynon

Teitl Swydd: Swyddog Maes Morgannwg Gwent

Sefydliad: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg



## Disgrifiad:

Er fy mod yn dod o gefndir di-Gymraeg, ar ôl dewis mynd i astudio gradd yn y Gymraeg a Daearyddiaeth, roeddwn yn benderfynol iawn y byddwn yn dilyn gyrfa sy'n ymwneud â'r Gymraeg bob dydd, ac yn benodol, swydd lle y byddai modd imi wneud gwahaniaeth. Tuag at ddiwedd fy nhrydedd flwyddyn yn y brifysgol, penderfynais y byddwn yn gwneud cais am swydd gyda'r mudiad cenedlaethol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac roeddwn yn ddigon ffodus i ddechrau ar fy ngwaith yn fuan ar ôl graddio.

Erbyn hyn, rwyf wedi bod yn fy swydd ers bron i 15 mis ac rwyf yn falch iawn o allu dweud fy mod i wedi mwynhau pob agwedd arni hi'n fawr iawn! Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, ar gyfer y swydd hon, mae'n rhaid cael diddordeb byw mewn materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, ac rwyf yn teimlo bod y cwrs, y brifysgol a'r dref ei hun wedi cyfrannu'n fawr at y diddordeb hwn.

Hefyd, roedd fy nghyfnod o brofiad gwaith, pan dreuliais 8 diwrnod gyda Phlaid Cymru yn y cynulliad fel rhan o'r modiwl: 'Y Gymraeg yn y gweithle', yn ddefnyddiol iawn, oherwydd bod modd imi ddod yn fwy cyfarwydd â materion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r iaith. Mae'n debyg mai'r modiwl hwn, yr oeddwn yn ei ddilyn yn fy nhrydedd flwyddyn, yw'r modiwl pwysicaf a astudiais fel rhan o'm gradd. Gan fy mod yn gweithio i fudiad eithaf bach, rwyf yn gyfrifol am ystod eang iawn o bethau, ac fel canlyniad, mae'n rhaid meddu ar amrywiaeth eang o sgiliau. Roedd y modiwl hwn yn gyfle imi ddatblygu'r sgiliau hyn trwy eu hymarfer ar gyfer gwahanol dasgau, fel rhan o'm portffolio. Un o'r sgiliau pwysicaf a mwyaf defnyddiol a ddatblygais fel rhan o'r modiwl hwn oedd y sgil o gyflwyno i gynulleidfa. Ers dechrau yn fy swydd, rwyf wedi gwneud sawl gwahanol gyflwyniad, gan gynnwys i ddisgyblion ysgol a dysgwyr Cymraeg.

Yn ogystal â'r modiwl hynod ddefnyddiol hwn, roedd sawl modiwl arall yn ddefnyddiol iawn ar gyfer fy swydd bresennol, yn arbennig y modiwlau iaith. Gan mai yn y Gymraeg yn unig mae popeth yn cael ei wneud, mae'r modiwlau iaith yr oeddwn yn eu hastudio, megis 'Gloywi Iaith' wedi bod yn hynod bwysig imi. Mae'r modiwlau hyn wedi sicrhau bod gennyf afael arbennig o dda ar ramadeg y Gymraeg, ac mae hyn yn hollbwysig yn fy swydd bresennol gan fy mod yn llunio negeseuon ar bob plattform i fynd allan i'n haelodau sy'n disgwyl derbyn gohebiaeth sy'n ramadegol gywir.

## Diwrnod Arferol:

Un o'r pethau rwyf yn ei fwynhau'r mwyaf am fy swydd yw bod pob diwrnod yn wahanol i'r diwrnod blaenorol. Gan fy mod yn gweithio i fudiad sydd gyda dim ond 5 aelod o staff, mae fy nyletswyddau'n gallu amrywio'n fawr iawn o ddydd i ddydd. Er bod y swydd yn cael ei lleoli mewn swyddfa yng Nghaerdydd, yn aml iawn byddaf yn treulio 5 niwrnod yr wythnos yn y swyddfa. Gan fy mod yn gyfrifol am ranbarth mawr, mae gennyf gyfle i dreulio llawer iawn o'm hamser i ffwrdd o'r swyddfa ac yn gweithio gydag aelodau yn y rhanbarth. Hefyd, weithiau, oherwydd bod fy ngwaith yn amrywio gymaint, nid oes hyd yn oed un bore yn debyg i'r prynhawn. Rwyf yn gallu bod yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl, ar amrywiaeth eang o

brosiectau ar yr un pryd, felly, ni fyddai'n rhyfedd imi dreulio'r bore mewn cyfarfod gyda chynghorydd lleol, ac wedyn y prynhawn yn cwrdd â chriw o aelodau ifanc ynglŷn â threfnu gigs yn y gymuned leol.

## Fy hoff beth:

Gweithio gydag aelodau i drefnu digwyddiadau Cymraeg yn eu hardaloedd i hybu'r Gymraeg. Yn benodol, fy hoff beth hyd yn hyn, oedd bod yn gyfrifol am bresenoldeb y mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn cynnwys trefnu a chynllunio cyfres o 8 o gigs, yn ogystal â chyfres o sgysiau ar ein stondin yn ystod yr wythnos. Roedd yr holl wythnos, a'r cyfnod cynllunio yn brofiad hollol amhrisiadwy.

## Cymwysterau:

### BA Cymraeg a Daearyddiaeth

Fy hoff beth am y cwrs oedd yr hyblygrwydd. Roedd gennyf gyfle i astudio ystod eang iawn o fodiwlau ac roedd modd imi ddewis y modiwlau roeddwn yn eu mwynhau'r.

## Sgiliau Allweddol:

Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, ac i reoli llwyth gwaith amrywiol.

# Cydlynnydd Cyfryngau Cymdeithasol

Enw: **Sulwen Richards**

Cartref: **Pumsaint, Sir Gaerfyrddin**

Teitl Swydd: **Cydlynnydd Cyfryngau Cymdeithasol**

Sefydliad: **Prifysgol Aberystwyth**



## Disgrifiad:

Wedi i mi ymweld ag Adran y Gymraeg ar ddiwrnod agored a mynychu'r gynhadledd Cymraeg Proffesiynol, roeddwn yn sicr mai Cymraeg Proffesiynol oedd y cwrs i mi, ac mai Aberystwyth oedd y Brifysgol i mi. Roeddwn wrth fy modd fel myfyrwraig yma yn Aberystwyth, a derbyniais gefnogaeth arbennig gan ddarlithwyr yr Adran.

Wrth i dair blynedd yn astudio gradd mewn Cymraeg Proffesiynol ddirwyn i ben, roedd hi'n bryd dechrau chwilio am swydd! Deuthum ar draws y swydd hon, a wnaeth apelio ataf am nifer o resymau, ond yn benodol yn sgil fy niddordeb yn y maes a fy angerdd tuag at y Brifysgol a'r hyn y mae'n ei gynnig i fyfyrwyr. Yn sgil natur cynnwys y cwrs gradd Cymraeg Proffesiynol, teimlais yn ddigon hyderus i fentro ac i ymgeisio am y swydd ac rwyf bellach yn gweithio'n llawn amser fel rhan o dîm marchnata a denu myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

## Diwrnod Arferol:

Mae fy ngwaith yn amrywio o wythnos i wythnos, yn ddiwynol ar y digwyddiadau a'r ymgyrchoedd sydd ar y gweill. Rwy'n gyfrifol am geisio cynnal a datblygu brand y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws amrywiaeth o blatfformau, gan gynnwys Facebook, Twitter ac Instagram. Rwy'n treulio cyfran helaeth o fy amser yn cynllunio cynnwys, boed hynny yn gynnwys sy'n berthnasol ar gyfer ymgyrchoedd a digwyddiadau penodol neu gynnwys cyffredinol sydd oll yn ymwneud â'r nod o farchnata'r Brifysgol a denu myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu darnau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chynhyrchu fideos, graffeg a gifs addas i gyd-fynd â nhw. Hyd yma, y mae rhai o'r prif ddigwyddiadau bûm yn gweithio arnynt yn cynnwys yr ymgyrch Clirio, Diwrnodau Agored, Graddio, Y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

## Fy hoff beth:

Mae'n braf iawn medru gweithio trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a hynny fel rhan o dîm cyfeillgar a brwdfrydig. Mae'r amrywiaeth sydd yn perthyn i'r swydd yn hyfryd, gan alluogi i mi fod yn greadigol. Mae'n hynod bwysig credu yn yr hyn rydych yn ceisio ei farchnata, ac rwy'n ffodus bod hynny'n naturiol i mi gan fy mod wedi cael profi bywyd fel myfyriwr yn Aberystwyth.

## Cymwysterau:

### BA Cymraeg Proffesiynol

Dyma gwrs arbennig a wnaeth ymestyn fy ngorwelion, drwy adeiladu pontydd â gwahanol sefydliadau ac wrth i mi ddatblygu sgiliau amrywiol a berthnasol i'r byd gwaith. Pe bai rhaid i mi ddewis un ansoddair i ddisgrifio'r cwrs gradd Cymraeg Proffesiynol, 'cyfoes' fyddai hwnnw, yn sgil perthnasedd cynnwys y cwrs gradd i'r byd gwaith. Mae yna dri modiwl penodol sydd yn hynod berthnasol a defnyddiol i fy swydd bresennol, sef Cyflwyniad i Gymraeg Proffesiynol, Y Gymraeg yn y Gweithle a Bro a Bywyd.

Yn bersonol, un o'r uchafbwyntiau i mi yn ystod y cwrs oedd y cyfnod o brofiad gwaith a dreuliais gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod yn ail flwyddyn fel rhan o'r modiwl Cymraeg yn y Gweithle. Fe wnaeth y profiad arbennig hwn arwain

at waith llawn amser dros yr haf fel Cynorthwydd Cyfathrebu i Elusen y Bwrdd Iechyd, profiad rwy'n ei werthfawrogi yn fawr.

Fe wnaeth y cwrs Cymraeg Proffesiynol gynnig holl elfennau traddodiadol gradd yn y Gymraeg i mi, megis y cyfle i astudio llenyddiaeth, gramadeg a chyfieithu. Ond, fe wnaeth hefyd gynnig y cyfle i mi fedru meithrin sgiliau addas ar gyfer y byd gwaith yn y Cymru gyfoes, ac rwy'n hynod o ddiolchgar am hynny.

## Sgiliau Allweddol:

Y mae'r gallu i gyfathrebu yn glir, yn gywir ac y gryno yn hanfodol yn y swydd hon, a hynny ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol gan gynnwys darpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol, rhieni a staff. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn faes cystadleuol wrth i fusnesau a sefydliadau mawr frwydro am sylw unigolion. Mae'n angenrheidiol, felly, bod ymgyrchoedd yn denu sylw ac yn sefyll allan, ac er mwyn cyflawni hynny rhaid meddu ar agwedd greadigol a meddwl agored. Mae'r swydd yn cynnwys tipyn o ddefnydd o raglenni technegol amrywiol, er enghraifft er mwyn dylunio deunydd marchnata digidol, felly mae meddu ar y sgiliau hynny hefyd yn ddefnyddiol. Cofiwch ddilyn Prifysgol Aberystwyth ar Trydar, Facebook ac Instagram i weld beth rwy'n ei wneud o ddydd i ddydd!

# Gohebydd

Enw: Endaf Griffiths

Cartref: Cwmsychbant, Ceredigion

Teitl Swydd: Gohebydd gyda Golwg360

Sefydliad: Golwg cyf (Llanbedr Pont Steffan)



## Disgrifiad:

Yn ystod fy nghyfnod fel myfyriwr israddedig ac uwchraddedig, doedd gen i ddim syniad ynglŷn â pha fath o yrfa oedd o'm blaen.

Tra oeddwn i'n cwblhau fy ngradd MPhil, a hynny dros gyfnod o ddwy flynedd, fe fŷm i'n gweithio'n llawrydd i gwmni Golwg yn Llanbed. Cefais gyfle i droi fy llaw at bob math o waith yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys trefnu digwyddiadau, ymchwilio i raglenni radio ac, yn fwy na dim, newyddiadura. Pan ddaeth y cyfle wedyn i mi ymuno â'r cwmni yn llawn amser fel un o ohebwyr Golwg360, fe neidiais arno a dw i'n falch fy mod i wedi gwneud hynny.

Dydy bod yn newyddiadurwr ddim yn hawdd. Er mwyn cael stori dda, mae'n rhaid cael llygad craff, amynedd a dyfalbarhad. Ond po fwyaf yr her, y mwyaf y pleser a ddaw o'i chwblhau. Dw i'n ffodus fy mod i wedi treulio dwy flynedd yn astudio ar gyfer gradd MPhil. Bu'r radd honno'n gyfle i mi ddysgu

llawer o sgiliau yr ydw i'n eu defnyddio yn fy ngwaith bob dydd. Mae'r rheiny'n cynnwys sgiliau ymchwilio, ysgrifennu a phrosesu gwytodaeth.

Dw i'n ysgrifennu ar amrywiaeth o bynciau o ddydd i ddydd ac, yn wir, o awr i awr. Gall fy straeon fod yn rhai am lenyddiaeth, gwleidyddiaeth neu chwaraeon, yn straeon sy'n deillio o Gymru neu o ben draw'r byd. Dyna un fantais o fod yn newyddiadurwr - dydy'r gwaith byth yn undonog.

Yr hyn sydd yn fy meddwl yn gyson wrth chwilio neu baratoi stori yw'r darlennydd. Fy ngwaith yw cyflwyno'r newyddion hynny sy'n bwysig i bobl, i holi cwestiynau ar eu rhan, ac i ganfod y gwir. Roedd yr egwyddorion hynny'n bwysig i mi pan oeddwn i'n paratoi fy nhraethawd MPhil, ond dw i'n eu gwerthfawrogi nhw'n fwy fel gohebydd.

## Diwrnod Arferol:

Dydy newyddiadurwr ddim yn cael diwrnodau arferol. Os yw'r diwrnod yn un arferol, yna mae hynny'n anarferol!

Mae patrwm y gwaith yn amrywio o wythnos i wythnos, gan fod pob un o ohebwyr Golwg360 yn gweithio shifftiau. Un wythnos, dw i'n gweithio o 10yb tan 6yh, a'r wythnos ddilynol o 7yb tan 3yp.

Mae yna shifftiau aml-gyfrwng o dro i dro hefyd. Mae'r rheiny gan amlaf tua chanol neu ddiwedd yr wythnos, gydag oriau'r shifftiau yn 9yb tan 5yh. Ond mae hynny'n dibynnu ar ba brosiectau sydd gen i ar y gweill a pha bryd yw'r gorau i gynnal cyfweiliadau neu fynd i ddigwyddiadau penodol ayyb.

Pan fyddaf ar y shifft arferol (7yb-3yp neu 10yb -6yh), y prif nod yw cyfrannu amrywiaeth o straeon i wefan Golwg360. Does dim dal faint o straeon sy'n cael eu hysgrifennu mewn diwrnod; mae hynny'n dibynnu ar newyddion y dydd. Ond fy nharged yw ysgrifennu o leiaf 10 stori y dydd, a digon fel bod y wefan yn edrych yn hollol ffres a newydd o fewn ychydig oriau.

Mae'n rhaid ysgrifennu'n gyflym, ond ysgrifennu'n synhwyrol hefyd.

## Fy hoff beth:

Cael y pleser o gyflwyno i bobol y newyddion sy'n berthnasol iddyn nhw.

## Cymwysterau:

**BA Cymraeg; Mphil**

Fy mhrif ddiddordeb yw Llenyddiaeth Gymraeg, ac fe fwynheais yn fawr yr ystod eang o bynciau oedd ar gael i astudio yn Adran y Gymraeg, boed hynny'n farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, chwedlau'r Mabinogion neu'r Brenin Arthur.

## Sgiliau Allweddol:

Sgiliau cyfathrebu, sgiliau ymchwilio a sgiliau ysgrifennu cyflym a chraff.



# Cyfieithydd

Enw: Rhodri Siôn

Cartref: Capel Garmon, Llanrwst

Teitl Swydd: Cyfieithydd

Sefydliad: Cyngor Sir Bwrdeistref Sirol Conwy



## Disgrifiad:

Yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol, nid oeddwn wedi penderfynu'n bendant mai cyfieithydd roeddwn am ei fod, ond gwyddwn ers tro mai cael swydd sy'n trin a thrafod y Gymraeg fyddai fy nod wrth i mi gamu i'r byd gwaith. Yn sgil Safonau newydd Comisiynydd y Gymraeg a'r gofyn statudol i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â nhw, roedd swyddi felly i'w cael yn fwyfwy aml, a swyddi cyfieithu'n benodol.

Mae pobl yn aml yn gofyn "pa fath o bethau wyt ti'n eu cyfieithu?", a'r ateb symlaf yw "pob dim". Ers cyflwyno'r Safonau newydd, mae gofyn i bopeth sy'n digwydd yn y Cyngor ddigwydd yn ddwyieithog, felly rwy'n cyfieithu pob math o bethau. Mae Uned Iaith Cyngor Conwy hefyd yn cyfieithu i bedwar o chwech Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, felly mae digon o amrywiaeth. Yr wythnos ddiwethaf, bûm yn gweithio ar Gyfansoddiad un o'r Awdurdodau Lleol ac, ar ôl gorffen hwnnw, y pethau cyntaf i mi eu cyfieithu

oedd bwydlen ysgol gynradd (a oedd, mewn manau, yn fwy heriol na'r Cyfansoddiad!) a negeseuon Twitter am Rali Cymru GB. Ni feddyliais erioed y byddwn yn cyfieithu ystod mor eang ac mae hynny'n amrywio'r gwaith o un diwrnod i'r llall.

Roedd rhywfaint o waith dod i arfer â'r ffordd roedd yr Uned yn gweithio, defnyddio rhaglen hwylyso cyfieithu Wordfast a dod yn gyfarwydd â rhai o'r termau amlycaf yr oedd yr adran wedi'u pennu'n rhai safonol, ond buan iawn y deuthum i drin a thrafod pob agwedd o'r gwaith. Bydd her newydd o'm blaen dros y misoedd nesaf wrth i mi ddysgu cyfieithu ar y pryd, ond rwy'n edrych ymlaen at ddysgu sgil werthfawr iawn a fydd yn fy helpu i ddatblygu wrth i mi edrych tua'r dyfodol. Mae'r adran yn tyfu o hyd, ac mae 22 ohonom ni yno ar hyn o bryd, felly mae'r gweithle'n lle prysur iawn ar adegau! Mae'r maes hefyd yn datblygu'n barhaus, ac rwy'n edrych ymlaen at weddill fy ngyrfa ynddo.

## Diwrnod Arferol:

Mae'r gwaith yn hyblyg iawn, ac mae hi'n bosib' cychwyn am saith y bore, pe bawn yn dymuno, ond tua wyth o'r gloch y byddaf yn cyrraedd y swyddfa yng Nghonwy, fel arfer. Gallwn weithio o gartref hefyd, ond mae'n well gennyf fod yn yr Uned er mwyn bod ymhlith fy nghydweithwyr ar hyn o bryd. Mae ethos braf iawn yn y swyddfa a byddwn yn stopio i sgwrsio am hyn a'r llall dros baned o dro i dro.

Mae'r darnau o waith yn cael eu trefnu gan Gydlynnydd yr Uned ac mae pawb yn codi i nôl darnau o'r fagedd ar ôl gorffen yr hyn a oedd ganddyn nhw i weithio arno'n flaenorol. Weithiau, bydd rhywun yn gorffen sawl dogfen mewn diwrnod, neu'n gweithio ar un am rai dyddiau. Mae nifer y geiriau y byddaf yn eu cyfieithu'n amrywio o un diwrnod i'r llall, gan ddibynnu ar natur y darnau, ond y nod yw cyfieithu tua 3,000 y dydd. Os wyf mewn penbleth ynglŷn â darn neu derm penodol, rwy'n holi'r rhai sydd yn y swyddfa neu'n anfon e-bost at y rhai sy'n gweithio'r diwrnod hwnnw'n gofyn am eu barn nhw, ac mae cymorth ar gael bob tro. Os wyf yn cychwyn am 8, byddaf fel arfer yn gadael y gwaith rhwng 4 a 4.30, ond rwyf wedi aros tan 7 er mwyn gorffen dogfen cyn heddiw!

## Fy hoff beth:

Cael gwybod am ddiwyddiadau sydd i ddod cyn neb arall!

## Cymwysterau:

### BA Cymraeg Proffesiynol

Heb os, bu astudio Cymraeg Proffesiynol yn y Brifysgol yn hwb enfawr i mi wrth chwilio am waith mewn oes mor gystadleuol. Gallwn edrych ar fanylion y swydd a bod yn hyderus bod gennyf brofiad ym mhob un o'r meysydd hanfodol, ac roedd hynny'n beth braf iawn wrth lunio cais. Cefais fy mhenodi cyn derbyn fy ngradd derfynol gan fod fy nghyflogwr mor hyderus bod y cwrs wedi fy mharatoi ar gyfer y swydd. Er mai fi yw cyfieithydd lleiaf profiadol yr Uned ar bapur, ar ôl cwta bum mis o brofiad ymarferol mewn swydd gyfieithu, rwy'n credu fy mod yn addas i wneud y gwaith, a hynny bron yn llwyr o ganlyniad i gynnwys fy nghwrs gradd, yn enwedig y modiwl 'Astudiaethau Trosi ac Addasu'.

## Sgiliau Allweddol:

Gafael dda iawn ar y Gymraeg a'r Saesneg, sgiliau cyfrifadurol a sgiliau teipio, sgiliau gweithio mewn tîm a datrys problemau a gallu gweithio o fewn terfynau amser.

# Ymchwilydd Teledu

Enw: Elin Tomos

Cartref: Nantperis

Teitl Swydd: Ymchwilydd

Sefydliad: Cwmni Da



## Disgrifiad:

Prif ddiben fy swydd fel ymchwilydd yw darparu cefnogaeth i'r cynhyrchydd a'r tîm cynhyrchu. Rwyf yn gyfrifol am gasglu, gwirio a darparu gwybodaeth ar gyfer cynyrchiadau ffilm, a theledu, gan weithio ar amrediad o raglenni o fewn y maes. Rwy'n trefnu, cynllunio ac ymchwilio popeth fydd yn digwydd o fewn cynhyrchiad: pwy fydd yn cael ei gyfnewid; lleoliad; oes digon o ofod i'r criw ffilmio; ydi'r gyllideb yn ddigonol? Pan nad wyf yn gweithio'n ddiwyd ar gynhyrchiad penodol, byddaf yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu a chyfrannu syniadau, cysylltiadau a ffynonellau ar gyfer cynhyrchiadau arfaethedig.

Wrth weithio yn y maes yma, rwyf wedi dysgu cyn dipyn am berchnogaeth hawlfreintiau a'r broses ar gyfer clirio deunydd ar gyfer darlledu boed hynny'n ffynonellau llenyddol, cerddorol, neu'n archif sgrin a sain. Rwyf wrth fy modd yn cael ymweld ag archifau S4C a'r BBC yng Nghaerdydd er mwyn dod o hyd i ddeunydd priodol.

Mae gwaith ymchwilydd yn wahanol iawn i ymchwil academiaidd, serch hynny, rwyf yn grediniol bod natur fy nghwrs gradd wedi fy mharatoi ar gyfer y swydd hon. Roedd nifer o'r modiwlau Cymraeg wedi'u teitwra yn benodol ar gyfer gwella a gloywi safon ein Cymraeg. Tros amser, sylweddolais fy mod yn dechrau datblygu arddull ysgrifennu penodol a oedd bellach yn fwy cywir - ac o bosib yn fwy diddorol!

Tra oeddwn i'n fyfyrwr yn Aberystwyth cefais y cyfle i fagu diddordeb yn y cyfryngau Cymreig a Chymraeg wrth weithio fel Llysgennad a Llefarydd Cyflogedig ar ran S4C ym Mhrifysgol Aberystwyth. Diben fy swydd oedd cynorthwyo staff gyda chynlluniau ar gyfer datblygiad ystod eang o ymgyrchoedd hysbysebu gyda'r bwriad o gryfhau'r cyswllt rhwng myfyrwyr â'r sianel genedlaethol.

Mae fy ngwaith ymchwil yn Aberystwyth hefyd wedi agor y drws i fyd cyhoeddi oherwydd ar hyn o bryd rwyf wrthi'n addas fy nhraethawd Meistr yn gyfrol. Mae'r gwaith yn edrych ar ddarpariaeth iechyd a lles yn yr ardaloedd llechi yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan roi sylw arbennig i ferched, y rheiny a oedd yn darparu ac yn derbyn gofal. Bydd y llyfr yn cael ei gyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch yn fuan!

## Diwrnod Arferol:

A dweud y gwir, does dim diwrnod 'arferol' yn Cwmni Da, a dyma un o'r prif bethau sy'n gwneud y gwaith mor ddiddorol. Mae fy niwrnod gwaith yn dibynnu'n llwyr ar y cynhyrchiad dan sylw.

## Fy hoff beth:

Er bod cyrraedd terfyn cynhyrchiad yn deimlad cymharol od, mae mynd fyny i'r ystafell olygu a chael gweld cipolwg o'r cynhyrchiad terfynol yn deimlad braf; o'r diwedd mae modd gweld ffwyth llafur misoedd o waith yn fwy ar y sgrin fach.

Mae swyddfeydd Cwmni Da wedi eu lleoli yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon, ac mae fy nesg i yn edrych dros y Fenai, heb os, mae hi'n bleser cael gweithio mewn llecyn cystal.

## Cymwysterau:

**BA Hanes gyda Chymraeg  
MA Hanes Cymru**

Fy hoff beth am astudio yn Adran y Gymraeg oedd y cyfeillgarwch rhwng staff a myfyrwyr, a'r teimlad bod drysau swyddfeydd y staff bob amser ar agor. Roeddwn i hefyd yn mwynhau mynd i ddarlithoedd gyda blwyddyn 2 a 3 gyda'i gilydd - mae eich cylch ffrindiau yn tyfu yn gyflym!

## Sgiliau Allweddol:

Fel y mwyafrif o swyddi, mae cyfathrebu yn sgil hanfodol. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod pob aelod o'r criw - boed yn gyfarwyddwyr, yn dechngewyr sain neu'n gyfranwyr a chyflwynwyr - yn ymwybodol o drefniadau'r cynhyrchiad.

Ar adegau, mae gan gynyrchiadau amserlenni tynn dros ben, felly mae hyblygrwydd a'r gallu i weithio o dan bwysau yn angenrheidiol hefyd.



# Swyddog Datblygu Cymunedol

Enw: **Hannah Roberts**

Cartref: **Brynawr, Blaenau Gwent**

Teitl Swydd: **Swyddog Datblygu Cymunedol**

Sefydliad: **Menter Iaith Blaenau Gwent,  
Torfaen a Mynwy**



## Disgrifiad:

Dechreuais i ddysgu'r Gymraeg drwy ddamwain mewn gwirionedd. Nid wyf yn dod o deulu sy'n siarad Cymraeg. Nid wyf yn dod o ardal sy'n defnyddio'r Gymraeg yn agored. Roeddwn gartref yn haf o'r brifysgol ac edrychais am 'rywbeth' i'w wneud i ladd amser. Y 'rywbeth' hwnnw oedd dysgu'r Gymraeg ar gwrs blasu Cymraeg i Oedolion. Pan es i yn ôl i'r brifysgol yn Aberystwyth i barhau gyda fy astudiaethau mewn Daearyddiaeth, sylweddolais i fy mod eisiau astudio mwy o Gymraeg. Gyda hynny, gofynnais i Adran y Gymraeg a oedd hi'n bosib imi newid i'w chwrs ar gyfer dechreuwy'r pur. Rhoddodd tynged gyfle imi. Roeddwn yn lwcus iawn, a dechreuais i ddilyn y cwrs hwnnw yn 2010. Nid wyf yn edifarhau am ddim. Erbyn hyn mae gennyf radd yn y Gymraeg ac rwy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg bob dydd.

Heddiu rwyf yn gweithio'n llawn amser gyda Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Yn y bôn, fy ngwaith yw hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y cymunedau hyn. Rydym yn anarferol oherwydd ni yw'r unig un sy'n gyfrifol am dair sir ac felly mae'n rhaid imi weithio yn y tair ardal. Mae llawer o deithio ond llawer o amrywiaeth hefyd.

## Diwrnod Arferol:

Nid oes diwrnod arferol! Mae oriau gweithio yn dibynnu ar brosiectau neu ddigwyddiadau sy'n mynd ymlaen, felly, mae'n rhaid bod yn hyblyg.

O ganlyniad, mae'r hyn y byddaf i'n ei wneud o ddydd i ddydd yn dibynnu a wyf yn gweithio yn y gymuned neu yn y swyddfa. Mae gwaith swyddfa fel arfer yn golygu trefnu digwyddiadau, cynllunio sesiynau gwahanol a gweinyddiaeth, hysbysebu a marchnata digwyddiadau, diweddarau'r wefan, ymdrin â'r wasg leol a chenedlaethol. Mae'r math o waith rwy'n ei wneud yn golygu fy mod alaln yn y gymuned y rhan fwyaf o'm hamser ac yn gweithio gyda phobl. Rwy'n gweithio gyda phob oedran a rhuglder: mae enghreifftiau o bethau rwyf yn eu gwneud yn cynnwys boreau coffi, sesiynau amser stori a chân, gwaith ieuencid, rheoli clybiau carco, sesiynau ymwybyddiaeth iaith, sesiynau gwyliau ar gyfer plant, coginio, grwpiau trafod, teithiau.....mae'r rhestr yn ddiddiwedd!

Wrth gwrs, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn un o'n hardaloedd yn 2016, felly gweithiais i'n agos gydag un o'r pwyllgorau i godi arian ac wedyn ar y maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Mae'r math hwn o waith yn gofyn ichi weithio ar y cyd yn aml â mudiadau eraill, felly mae llawer o gyfleoedd i ddatblygu pethau neu i ddechrau rhywbeth newydd ac arbrofi gyda syniadau.

## Fy hoff beth:

Amrywiaeth, cyfle i fynd allan i'r gymuned a chwrdd â phobl.

## Cymwysterau:

### BA Cymraeg

Mae'r cwrs yn y brifysgol wedi fy mharatoi ar gyfer y byd Cymraeg ac wedi rhoi sgiliau llafar ac ysgrifenedig imi. Roedd y cwrs yn ddwys ond yr oedd yn fy siwtio i'r dim; roedd yn brofiad cwbl fuddiol ac roedd llawer o gyfleoedd fel canlyniad.

## Sgiliau Allweddol:

Y gallu i gyfathrebu â phob oedran a rhuglder, y gallu i weithio'n annibynnol, sgiliau ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg a'r Saesneg, hyblygrwydd a'r gallu i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

# Pennaeth Marchnata

Enw: **Fflur Arwel**

Cartref: **Aberystwyth [yn wreiddiol o Gaernarfon]**

Teitl Swydd: **Pennaeth Marchnata**

Sefydliad: **Y Lolfa**



## Disgrifiad:

Does neb wir yn eich paratoi chi at fywyd tu hwnt i'r byd academiaidd a doedd gen i ddim syniad pa drywydd roeddwn am ei ddilyn ar ôl gadael coleg. Roedd y trywydd ar ôl gadael yr ysgol yn ddigon clir i mi - dilyn fy niddordebau ac astudio Cymraeg a Gwleidyddiaeth yn y coleg. Ond beth nesaf?

Roeddwn i wedi gwneud tipyn o brofiad gwaith yn ystod fy nghwrs israddedig ac uwchraddedig gan gynnwys cyfnod o brofiad gwaith yng ngwasg Y Lolfa yn golygu testunau. Drwy gyd-ddigwyddiad llwyr, fe ddaeth swydd yn rhydd gyda gwasg Y Lolfa a dyma fynd amdani yn llwyddiannus!

Un o brif gyfrifoldebau'r swydd yw llunio cynlluniau marchnata ar gyfer llyfrau'r wasg ac ysgrifennu datganiadau i'r wasg. Mae gofyn cyfathrebu a meithrin cysylltiadau gyda'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt yn ogystal â threfnu a cydlynu lansiadau a sesiynau llofnodi. Rwyf hefyd yn gyfrifol

am ofalu am y wefan, blog a chyfryngau cymdeithasol Y Lolfa ac mae disgwyl i mi gyd-weithio â chyrrff eraill (er enghraifft, Cyngor Llyfrau Cymru, ysgolion a phrifysgolion, llyfrgelloedd a siopau llyfrau...). Byddaf hefyd yn dylunio hysbysebion a deunyddiau marchnata ac yn gweithio'n agos gydag awduron y wasg er mwyn sicrhau yr hyrwyddo gorau posibl i'r teitlau!

## Diwrnod Arferol:

Mae'n anodd disgrifio 'diwrnod arferol' gan fod trefn yn gallu amrywio o ddydd i ddydd a digon o amrywiaeth i gadw rhywun yn brysur! Cyfnod y Nadolig yw'r cyfnod prysuraf yn y wasg gyda bron i hanner y llyfrau a gyhoeddir gennym yn flynyddol yn cael eu cyhoeddi rhwng mis Medi a mis Rhagfyr. Rwy'n gweithio 9 tan 5 am bum niwrnod yr wythnos a fel arfer bydd diwrnod cyffredin yn cynnwys ysgrifennu datganiadau i'r wasg a gohebu gyda'r wasg yn gyffredinol, anfon copiau adolygu o lyfrau i'r wasg, cadw mewn cyswllt gydag awduron, dylunio deunyddiau marchnata, cadw mewn cyswllt gyda Chyngor Llyfrau Cymru a sicrhau bod y cyfryngau cymdeithasol yn aros yn actif.

## Fy hoff beth:

Mae'n ffrainc cael gweithio mor agos gyda rhai o awduron disgleiriaf a difyrhaf Cymru a chael trin a thrafod syniadau a chynlluniau marchnata gyda nhw. Mae'r Lolfa yn arloesi fel gwasg gan gyhoeddi llenyddiaeth a llyfrau ffeithiol heriol, bywiog a hynod gyffrous drwy'r flwyddyn ac mae rhywun wir yn teimlo fel eu bod nhw'n gwneud cyfraniad i ddiwylliant Cymru wrth helpu i hyrwyddo llyfrau a chyhoeddiadau mor gyfoethog.

## Cymwysterau:

**BA Cymraeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol  
MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru**

## Sgiliau Allweddol:

Mae gofyn bod yn greadigol iawn fel swyddog marchnata yn ogystal â gallu cyfathrebu yn glir ac yn gryno - boed gydag awduron, y wasg neu ddarlennwyr a chwsmeriaid. Mae sgiliau ysgrifennu da yn bwysig dros ben gan fy mod yn ysgrifennu datganiadau i'r wasg ac yn cyfathrebu gymaint gydag amrywiaeth o unigolion yn ddyddiol. Mae gofyn hefyd gallu defnyddio technoleg yn effeithiol gan fod nifer o hyrwyddo yn digwydd drwy'r we neu drwy ddylunio deunyddiau marchnata drwy feddalwedd arbennig. Mae angen ymwybyddiaeth dda o'r diwydiant cyhoeddi a'r byd llyfrau yng Nghymru hefyd a gallu deall a gweithio yn agos gyda'r wasg.

# Cyd-olygydd cylchgrawn

Enw: **Iestyn Tyne**

Cartref: **Twthill, Caernarfon—ond yn wreiddiol o Ben Llŷn**

Teitl Swydd: **Cyd-olygydd cylchgrawn Y Stamp; Llenor, cerddor ac artist llawrydd; Cyfieithydd rhan-amser**

Sefydliad: **Y Stamp; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

## Disgrifiad:

Roeddwn i'n ymwybodol ers peth amser yr hoffwn i allu gwneud peth, os nad y cyfan o fy mywoliaeth trwy gyfrwng creadigol. Roedd hynny'n gwneud synnwyr - roeddwn i wastad wedi sgwennu, wedi canu offerynnau. Dyna'r pethau yr oeddwn i'n angerddol am eu gwneud.

Yn ystod fy nghyfnod yn Aberystwyth fe wnes i recordio dau albym gyda bandiau (Lle awn ni nesa?, Patrobas 2017; Pendevig I, Pendevig 2018), rhyddhau dwy gyfrol o farddoniaeth (Addunedau, 2017; Ar Adain, 2018), a sefydlu - ar y cyd â thri arall - cylchgrawn creadigol Y Stamp. Fe lansiodd rhifyn cyntaf y cylchgrawn yn llofft Y Cŵps, Aberystwyth ym Mawrth 2017.

Daeth Y Stamp i fodolaeth wedi i'r pedwar ohonom ni sydd bellach yn ei olygu fynegi ein rhwystredigaethau am y cyfleoedd a oedd ar gael i awduron newydd gael llwyfan i'w gwaith. Ers lansio'r

cylchgrawn ar-lein, mae gwefan ystamp.cymru wedi cyhoeddi darn o waith creadigol newydd a gwreiddiol o leiaf unwaith bob wythnos. Yn ogystal â hynny, aethpwyd ati i lunio rhifynnau print - o leiaf tri y flwyddyn.

## Diwrnod Arferol:

Mae fy nyletswyddau fel aelod o fwrdd golygyddol Y Stamp yn amrywiol dros ben. Mae gwaith ar y rhifyn nesaf yn cychwyn y munud y bydd y rhifyn cyfredol wedi cyrraedd o'r wasg. Fel arfer, mae digwyddiad lansio ar gyfer y rhifyn, sydd yn gyfle perffaith i'r pedwar ohonom drafod cryfderau a gwendidau'r rhifyn cyfredol cyn symud ymlaen at sbydu syniadau at y rhifyn newydd. Rydyn ni wedyn yn trafod â chyfranwyr ac yn dod â'r deunydd at ei gilydd yn araf. Rydyn ni hefyd yn casglu hysbysebion ar gyfer y rhifyn, yn gofyn am brisiau'r argraffwyr, ac yn cychwyn trefnu lansiad - sicrhau lleoliad a



chyfranwyr i'r noson cyn paratoi poster a hyrwyddo ar-lein. Fi sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith dylunio a chysodi, felly mae anfon y cylchgrawn at Y Lolfa wastad yn rhyddhad mawr!

Mae fy ngwaith efo'r Stamp yn cwmpasu mwy na'r uchod wrth gwrs - rydyn ni hefyd yn trefnu sesiynau a nosweithiau nad ydyn nhw ynghlwm â rhifynnau penodol, yn rhedeg cyfrifon cymdeithasol a'r wefan o wythnos i wythnos (gan gynnwys golygu gwaith cyfranwyr yn gyson), ac yn ddiweddar rydym wedi mentro i faes cyhoeddi llyfrau am y tro cyntaf.

## Fy hoff beth:

Heb os, mae yna foddhad mawr o fod wedi sefydlu rhywbeth o ddim. Roeddwn i'n ffodus iawn o gael y gwahoddiad i ymuno â'r tri arall, ac mae hi'n sicr wedi bod yn broses o ddysgu trwy ein camgymeriadau ac ymddiried yn ein greddfau. Rydw i'n gobeithio'n fawr fod llwyddiant Y Stamp hyd yn hyn yn brawf nad yw cefnogaeth gwasg fawr sefydliedig yn rheidrydd pan fo rhywun eisiau llwyfan i'w gwaith. Cymryd mymryn o risg a mentro oedd y peth allweddol.

## Cymwysterau:

### BA Cymraeg

Yn Aberystwyth y gwnaeth fy ngwaith i aeddfedu ac ennill rhywfaint o'r sglein mwy cyfan a gorffenedig y teimlaf sydd ar beth o fy nghyfansoddiadau

diweddar. Yn fwy na dim, rwy'n credu mai'r sgiliau dadansoddol a enillwyd wrth astudio gradd yw un o'r pethau a fu'n fwyaf buddiol i mi yn fy ngwaith creadigol ac yn fy ngwaith ar y Stamp. Bu bod ynghlwm â mentrau fel Y Ddraig, cylchgrawn llenyddol yr Adran Gymraeg, hefyd yn brofiadau gwerthfawr wrth fynd ymlaen i weithio ar Y Stamp a fy nghyfrolau fy hun.

Cael fy nannedd mewn traethawd difyr - ymchwilio, pywso a mesur, ffurfio barn; ac yna bwrw iddi i gasglu'r canfyddiadau at ei gilydd i greu rhywbeth newydd a gwreiddiol oedd y wefr fwyaf i mi, mae'n siŵr. Roedd ceisio dweud rhywbeth gwreiddiol, a chanfod rhywbeth newydd mewn testun yn sgil y gwnes i ei datblygu yn Aberystwyth. Mae'r sgil honno yn un bwysig ym mhob maes!

## Sgiliau Allweddol:

Rydw i'n ffodus iawn o allu gwneud rhywfaint o fy mywoliaeth o fy ngwaith creadigol trwy gyfrwng comisiynau, perfformiadau a theithiau. Cyhoeddi digon o waith ac adeiladu proffil fel sgwennwr yn ara deg bach oedd yr allwedd efo hyn. Mae bod â hyder yn eich gwaith yn bwysig - ei anfon at gyhoeddiadau a'i berfformio mewn nosweithiau, a chael mwy o gyfleoedd yma ac acw gydag amser.

# Swyddog Ieuenctid

Enw: **Marged Gwenllian**

Cartref: **Llanuwchllyn**

Teitl Swydd: **Swyddog Ieuenctif Meirionnydd/Dibynch**

Sefydliad: **Urdd Gobaith Cymru**



## Disgrifiad:

Yn syml iawn, hanfod fy swydd yw trefnu a chynnal unrhyw ddigwyddiadau i blant a phobl ifainc o dan 25 oed, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n swydd hyblyg tu hwnt felly, ond gyda rhai elfennau gorfodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn, megis trefnu cystadlaethau chwaraeon, teithiau undydd, teithiau preswyl i wersylloedd yr Urdd neu deithiau tramor, ac eisteddfodau o fewn y rhanbarth.

Roeddwn i rhwng dau feddwl ar ôl graddio a oeddwn i am aros i wneud gradd meistr, neu fynd i fyd gwaith yn syth. Roeddwn i wirioneddol yn mwynhau fy nghyfnod yn y Brifysgol oherwydd y gymysgedd o'r gwaith ieithyddol, ynghyd â'r elfennau cymdeithasol a oedd yn dod ynghlwm â bod yn aelod o UMCA a'r Geltaidd. Roeddwn i'n gapten ar y tîm pêl-droed merched, ac yn aelod o Bwyllgor UMCA, felly roedd trefnu cystadlaethau a digwyddiadau cymdeithasol yn rhywbeth yr oeddwn i'n ei wneud beth bynnag, felly pan welais y swydd hon yn cael ei hysbysebu

yng Ngheredigion, sy'n gymysgedd o hynny a gwaith swyddfa, roedd hi'n fy siwtio i'r dim. Mi es i amdani a sicrhau fy mod yn cael byw yn Aberystwyth am flwyddyn ar ôl graddio cyn symud yn ôl adref lle'r ydw i rŵan yn yr un swydd, ond yn rhanbarthau Meirionnydd a Dinbych.

Feddyliais i erioed cymaint y byddai'r holl sgiliau a ddysgais drwy fy nghwrs Cymraeg Proffesiynol o ddefnydd i mi yn fy ngwaith pob dydd. Mae'r holl sgiliau ymarferol, megis dysgu sut i lunio datganiadau i'r wasg, cyfieithu, a llunio cofnodion pwyllgor, oll yn werthfawr tu hwnt. Byddaf yn llunio datganiadau am waith yr Urdd i'r papurau lleol, yn llunio llythrau, e-byst neu geisiadau grant yn ddwyieithog, a llunio agenda a chofnodi mewn pwyllgorau gydag ysgolion y rhanbarth yn gyson.

## Diwrnod Arferol:

Gan fod y gwaith yn cynnwys oriau anghymdeithasol, gweithio nos a phenwythnosau o dro i dro, golyga hynny y gallaf gymryd ychydig oriau i ffwrdd yn ystod yr wythnos i gael cydbwysedd. Ond fel arfer, byddaf yn cyrraedd y swyddfa am 9yb ar ddydd Llun i ateb unrhyw e-byst neu ymholiadau ers y penwythnos cyn mynd ymlaen i Ysgol Bro Idris, Dolgellau i gynnal Clwb Cyfansoddi. Mae cerddoriaeth yn ddiddordeb mawr gen i, felly dyna pam y penderfynais gychwyn y math hwn o weithgaredd. Byddaf yn gweithio â phlant oedran TGAU i gyfansoddi caneuon gwreiddiol â geiriau Cymraeg i feithrin eu hyder yn y gamp.

Af yn fy mlaen wedyn i Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog i gynnal Clwb Cyfansoddi arall, ac yna'r Clwb 'Sgwennu Creadigol sy'n ei ddilyn, ble bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn datblygu eu sgiliau drwy gael y rhyddid i ysgrifennu am ba bynnag pwnc yr hoffent mewn awyrgylch hwyliog.

Byddaf yn mynychu un o'r ysgolion cynradd cyfagos wedyn, i gynnal gweithdy ukuleles, i ddatblygu dawn gerddorol y plant a dysgu caneuon Cymraeg iddynt.

Yna ar rai nosweithiau, byddaf yn cynnal clwb neu aelwyd ble byddaf yn cynnal rhyw weithgaredd megis cwis neu gemau ac ati. Neu weithiau bydd gen i gyfarfod fforwm ieuenctid ble mae aelodau hŷn y rhanbarth yn dod at ei gilydd i drafod gwaith yr

Urdd, neu dderbyn rhyw achrediad fel cwrs cymorth cyntaf neu oriau gwirfoddoli gyda ni.

Mae'n andros o braf cael cymaint o amrywiaeth o fewn un diwrnod, ac eto mae hefyd yn braf weithiau cael diwrnod tawel yn y swyddfa i gael amser i ateb e-byst a threfnu digwyddiadau a chystadlaethau yn iawn!

## Fy hoff beth:

Cael cyd-weithio â phobl ifanc ysbrydoledig o wahanol rannau o Feirionnydd, Dinbych a Chymru.


## Cymwysterau:

### BA Cymraeg Proffesiynol

Fy hoff beth am y cwrs oedd y berthynas glos rhwng y myfyrwyr a staff yr adran Gymraeg. Roedd pawb yn hynod gyfeillgar ac yn barod i helpu neu sgwrsio bob amser!

## Sgiliau Allweddol:

Cyfathrebu hefo pob grŵp oedran - boed yn blant cynradd, uwchradd, athrawon neu wirfoddolwyr hŷn. Sgiliau disgyblu, sgiliau cyfrifiadurol, gweithio mewn tîm, a gallu addasu i newid cynlluniau funud olaf!



Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd  
Adeilad Parry-Williams  
Penglais  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3AJ

Ffôn: +44 (0) 1970 622137  
Ebost: [cymraeg@aber.ac.uk](mailto:cymraeg@aber.ac.uk)  
[celtaidd@aber.ac.uk](mailto:celtaidd@aber.ac.uk)